Enw ________________




DARLLENWCH
Luc 24: 45-53
Actau 1: 1-12



ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 24: 51

# Astudiaeth 3 Yr Arglwydd Iesu yn Esgyn i'r Nefoedd




**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Marc 16: 19 a 20 Ioan 7: 39 Actau 4: 31-33

Roedd yr Arglwydd Iesu wedi cael ei groeshoelio ac wedi'i atgyfodi. Roedd wedi ymddangos i'w ddisgyblion sawl gwaith ac yn awr roedd diwedd ei gyfnod ar y ddaear wedi dod.

## CROESAIR

**C Darllenwch y ddau ddarn o'r Beibl lle mae Luc yn dweud beth ddigwyddodd nesaf ac yna gwnewch y croesair.**



**Cliwiau i lawr**
1. Wrth i Iesu esgyn i'r Nefoedd, roedd hwn yn ei guddio o olwg y disgyblion.
2. Nifer y diwrnodau rhwng atgyfodiad Iesu a'i esgyniad.
3. Daeth y disgyblion yn ôl o Fynydd yr Olewydd i'r ddinas hon.
6. Dyma oedd lliw dillad y ddau ddyn.
7. Roedd Ioan yn defnyddio hwn i fedyddio pobl.

**Cliwiau ar draws**
4. Ysgrifennwyd llyfr Actau'r Apostolion ar gyfer y dyn hwn.
5. Dywedodd Iesu y byddai'r disgyblion yn cael eu bedyddio â hwn cyn hir.
8. Un o'r llefydd y dywedodd Iesu y byddai'r disgyblion yn dystion iddo.

8

**C Rhowch y llythrennau sydd yn y sgwariau sydd â llinell ar eu traws yn y drefn gywir i ffurfio gair sydd yn y darlleniad o'r Beibl.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

1

**C Darllenwch Actau 1: 8 ac ysgrifennu enwau'r llefydd yn y bylchau cywir:-**

Byddent yn dystion yn y brifddinas sef _________________________, ac yn yr ardal o'i

chwmpas sef __________________. Yna, roedden nhw i fod i fynd i ardal

o'r enw ________________, a oedd yn bellach i'r gogledd.

3

Roedd Iesu'n gwybod bod ei waith ar y ddaear wedi'i orffen. Yn awr, y disgyblion fyddai'n gyfrifol am ledaenu Gair Duw. Roedd hyn yn dasg enfawr. Roedd Iesu'n eu galw yn 'dystion' iddo. (Gweler adnod 8) Weithiau mae pobl yn dystion i ddamweiniau ac maen nhw'n gorfod mynd i'r llys i esbonio beth y maen nhw wedi'i weld a'i glywed. Mae'r disgyblion yn dystion i'r hyn y maen nhw wedi'i weld a'i glywed!

**C** **Edrychwch ar Luc 24: 46 a 48 ac ysgrifennwch y pethau y dywedodd Iesu fod ei ddisgyblion wedi'i gweld a'u clywed.**


2

**C** **Darllenwch Marc 16: 19, Actau 1: 11 a 12 a llenwi'r geiriau coll yn y paragraff isod:-**

Roedd Iesu wedi mynd â'i ddisgyblion i Fynydd yr __________ ger Bethania. Bendithiodd nhw a cymerwyd ef i fyny i'r ____________, lle'r eisteddodd ar ddeheulaw ________.

3

Roedd hyn yn golygu bod Iesu yn ôl gyda'i Dad, a dyna'r man lle mae ef heddiw. Gallech feddwl y byddai ei ddisgyblion yn drist iawn. Roedd eu Ffrind, eu Hathro a'u Harglwydd wedi'u gadael.



**C** **Sut roedden nhw'n teimlo wrth iddyn nhw fynd yn ôl i Jerusalem?**

1

**C** **Beth wnaethon nhw?**

1

Yn yr Astudiaeth hon, addawodd Iesu roi nerth i'w ddisgyblion. Fe gyflawnwyd yr addewid pan ddaeth yr Ysbryd Glân arnynt ymhen ychydig ddyddiau ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r Nefoedd. Heddiw, mae pawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu yn cael yr Ysbryd Glân sy'n rhoi nerth iddynt fod yn dystion iddo.

**C** **Darllenwch Actau 4: 31 a'i ysgrifennu yma i brofi'r ffaith hon.**

1

## Dyma weddi am yr Ysbryd Glân.

**POWER to change a sinner like me.**
**O Dduw, rho im dy Ysbryd,**
**dy Ysbryd ddaw â gwres,**
**dy Ysbryd ddaw â'm henaid**
**i'r nefoedd wen yn nes;**
**dy Ysbryd sy'n goleuo,**
**dy Ysbryd sy'n bywhau,**
**dy Ysbryd sydd yn puro,**
**sancteiddio a dyfrhau.**
**Dafydd William**

cyfanswm